**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 22 Mehefin 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr M Farley, Uwch Gynllunydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd M Norris

## 20 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, S. Emanuel a L. Tomkinson.

## 21 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Chais 23/0290: Dymchwel y warws bresennol, adeiladu bloc sy'n cynnwys 14 fflat fforddiadwy, mannau parcio ac ardaloedd amwynder. (Adolygu ac ailgyflwyno cais blaenorol 22/0510/10) W R BISHOP AND CO FRUIT AND VEGETABLE WHOLESALE, HEOL PENRHIW, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8EY.
"Mae fy mrawd yn byw yn yr eiddo drws nesaf ac wedi'i nodi'n siaradwr cyhoeddus ar gyfer y cais yma."

## 22 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 23 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## 24 COFNODION 08.06.23

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 08.06.23 yn rhai cywir.

## 25 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 26 CAIS RHIF: 23/0290

**Dymchwel y warws bresennol, adeiladu bloc sy'n cynnwys 14 fflat fforddiadwy, mannau parcio ac ardaloedd amwynder. (Adolygu ac ailgyflwyno cais blaenorol 22/0510/10) W R BISHOP AND CO FRUIT AND VEGETABLE WHOLESALE, HEOL PENRHIW, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8EY.**

**(**Noder: Ar ôl datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r cais uchod gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis y cyfarfod ar y pwynt yma.)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr G John (Asiant)
- Ms V Higgins (Gwrthwynebydd)
- Mr A Taylor (Gwrthwynebydd)
- Mr M Coombs (Gwrthwynebydd)
- Mr P Marchant (Gwrthwynebydd)
- Ms S Hopkins (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr G John, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio amlinelliad o gynnwys nifer o lythyrau 'hwyr' gan yr Aelod Seneddol Alex Jones, yr Aelod o'r Senedd Mick Antoniw , Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Parkin, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones a Mr D Lindley, a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth hir **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn yn ddarostyngedig i gwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw yn unedau fforddiadwy, i'r diben o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd, yn ogystal ag amod ychwanegol i ddarparu lleoliad amgen ar gyfer storio biniau, gan fod Aelodau'n bryderus am effaith y lleoliad a gafodd ei gynnig yn y cynlluniau ar eiddo cyfagos.

(Nodwch: Cafodd cynnig ei wneud, a'i eilio, i wrthod y cais sydd wedi'i nodi uchod yn erbyn argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, ar sail dyluniad y cais, y math o lety sy'n cael ei gynnig, diogelwch y llety, effaith y cais ar y priffyrdd a diogelwch y priffyrdd, y storfa finiau a'r effaith y bydd y storfa yn ei chael ar eiddo cyfagos,

(Nodyn: Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell rhag pleidleisio ar yr eitem hon.)

(Nodwch: Cymerodd y Pwyllgor doriad o bum munud ar yr adeg hon).

**27 CAIS RHIF: 22/1004**

**Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer cynllun tai fforddiadwy a manylion cysylltiedig mewn perthynas ag amodau 1, 5, 7, 9 a 10 yn unol â chaniatâd amlinellol 21/0448/15. (Derbyniwyd y Cynllun Lleoliad Safle Diwygiedig, Cynllun Safle, Nodyn Technegol: Trafnidiaeth (mewn perthynas â chyffordd Heol Waunrhydd) ar 27 Ionawr 2023; Derbyniwyd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu ar 12 Ebrill 2023) RHONDDA BOWL, HEOL WAUNRHYDD, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8EW.**

(Nodwch: Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis wedi dychwelyd i'r cyfarfod).

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms L Fowler (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais wedi'i nodi uchod i'r Aelodau.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys 2 lythyr hwyr gan yr Aelod Seneddol Alex Jones a'r Aelod o'r Senedd Mick Antoniw sy'n nodi pryderon am y datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

28 **CAIS RHIF: 23/0039**

**Adeiladu garej/storfa/gweithdy (Derbyniwyd cynllun ffin goch a chynlluniau diwygiedig ar 17/03/23) Y TU ÔL I 2 STRYD CRICHTON, TREHERBERT**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr H Jagdev (Gwrthwynebydd). Cawson nhw bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

29 **CAIS RHIF: 22/0311**

**Annedd newydd sbon ag 1 ystafell wely (Derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig a'r disgrifiad diwygiedig ar 27/01/2023). THE HILL COTTAGE, HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, GLYNRHEDYNOG, CF43 3HG**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

30 **CAIS RHIF: 22/0788**

**Amrywio amod 2, math o dŷ a diwygiadau cyffredinol 18/0736/10 , HEN SAFLE 'HILLSIDE COUNTRY CLUB', FFERM COLLENNA, TONYREFAIL, CF39 8AX.**

Roedd y Pennaeth Materion Cynllunio wedi gofyn bod Aelodau'n gohirio'r cais yma fel bod modd cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd ynglŷn ag anghysondebau mewn perthynas â'r ffin goch. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau ohirio'r cais.

31 **CAIS RHIF: 22/1129**

**Adeiladu a gweithredu fferm wynt sy'n cynnwys hyd at 7 tyrbin gwynt a seilwaith cysylltiedig (Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol) TIR I'R DWYRAIN O DREBANOG, RHONDDA CYNON TAF**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cynllunio y cais i'r Pwyllgor, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo Adroddiad ar yr Effaith Leol y Cyngor (fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 'A') mewn perthynas â'r cais yma ar gyfer Datblygiad O Arwyddocâd Cenedlaethol, er mwyn cyflwyno'r cais i gynorthwyo'r Arolygwr sydd wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, wrth benderfynu ar y cais.

32 **CAIS RHIF: 22/1443**

**Drysau rholer TIR Y TU ÔL I 257, HEOL TREBANOG, TREBANOG, PORTH.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodyn: Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes o'r bleidlais gan nad oedden nhw'n bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

**33 CAIS RHIF: 23/0149**

**Newidiadau a Gwaith ar gyfer ailosod y Bont Restredig Gradd II PONT HAEARN TRESALEM, Y LLWYBR BEICIO O'R DRAMFFORDD I DROEDFFORDD ABERDÂR ABD(33(1, TRECYNON, ABERDÂR**.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**34 CAIS RHIF: 23/0312**

**Garej arfaethedig, TIR GER TŶ TUDFUL, STRYD FAWR, CYMER, PORTH, CF39 9ET**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**35 CAIS RHIF: 23/0408**

**Estyniad deulawr arfaethedig i ochr yr adeilad ac estyniad unllawr i gefn yr adeilad, ynghyd â newidiadau y tu mewn i'r adeilad. 6 MAES IFOR, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7AS**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**36 CAIS RHIF: 23/0202/10**

**Newid defnydd o glinig i 5 fflat preswyl. CLINIG YSTRAD, 14 TERAS TRAFALGAR, YSTRAD, PENTRE, CF41 7RG**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**37 CAIS RHIF: 20/0988**

**Newid defnydd i B8 i ddefnyddio'r safle'n gyfleuster storio (cynwysyddion storio a charfanau). (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol ar 13/05/2021) HEN SAFLE PUROLITE, HEOL Y BONT-FAEN, PONT-Y-CLUN.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

## 38 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 29/02/2023 - 09/06/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**